**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Medi 2024**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | CYNLLUN YNNI ARDAL LEOL SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo Prif Adroddiad ac Adroddiad Technegol Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (Atodiadau 1 a 2), gan ddeall bod y camau gweithredu sydd wedi'u rhoi i Gyngor Sir Ddinbych yn amodol ar sicrhau a chynnal y cyllid angenrheidiol, a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni, a*<br><br>*(b) cadarnhau bod y gyfran enillion o £1.2 miliwn a gafwyd o ailariannu Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru fel a nodir ym mharagraff 6.2 yr adroddiad yn cael ei drin fel incwm ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff a'i ddefnyddio i wrthbwyso costau ychwanegol.* |
| **7** | RHAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet*. |